| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Myfyrwyr - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff, rhieni a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *15/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 15/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

## 1. Myfyrwyr

Mae'r feithrinfa wedi ymrwymo i rannu arfer dda gyda'r bobl hynny sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn gofal plant. Felly, croesewir myfyrwyr i ymuno â'n tîm staff ac ennill profiad gwaith yn ein meithrinfa. Rydym yn croesawu'r cyfle i annog hyfforddiant. Rydym yn derbyn myfyrwyr ar gyfnod leoliad gwaith, gan gydnabod hyn fel cyfle i archwilio ac adolygu ein harferion ein hunain. Byddwn yn derbyn 5 myfyriwr ar y tro gan fod nifer uwch na hynny o fyfyrwyr yn rhoi pwysau gormodol ar staff. Fodd bynnag, rydym yn derbyn grwpiau bychain neu leoliadau achlysurol pan gynhelir gwaith ymchwil neu astudiaethau a fydd o fudd i ofal plant.

Disgwylir i fyfyrwyr fod yn gysylltiedig â chwrs cydnabyddedig sy'n ymwneud â phlant, neu yn achlysurol, disgyblion o ysgolion uwchradd lleol ar brofiad gwaith. Bydd lleoliadau'n cael eu cynnig ar ôl trafod gyda'r tiwtoriaid priodol, a sefydlu cysylltiadau agos â'r coleg neu'r ysgol.

Bydd myfyrwyr yn dod i ymweld â'r feithrinfa am gyfweliad, ac yna eu sesiwn ymsefydlu a thaith o'r feithrinfa. Bryd hynny, bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddarllen a thrafod polisïau iechyd a diogelwch perthnasol a chael copi o'r Llawlyfr Myfyrwyr.

1.1 Bydd gan fyfyrwyr DBS cyn i'w lleoliad ddechrau

1.2 Bydd myfyrwyr yn cael eu goruchwylio bob amser gan yr aelod o staff a bennwyd iddynt a ni fyddant yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda'r plant

1.3 Gofynnir i fyfyrwyr ddarllen holl bolisïau'r feithrinfa sy'n ymwneud â'u lleoliad gwaith yn ystod eu cyfnod ymsefydlu myfyrwyr

1.4 Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr lofnodi ein polisi cyfrinachedd

1.5 Disgwylir, yn ystod lleoliad y myfyriwr, y bydd eu tiwtor yn ymweld â'r feithrinfa neu'n cyfathrebu ar lafar gyda'r Cydlynydd Myfyrwyr i gael adborth am gynnydd y myfyriwr

1.6 Cynigir cymorth ac arweiniad i fyfyrwyr trwy gydol eu lleoliad gwaith a chynnig adborth gonest ac adeiladol am eu perfformiad. Bydd staff yn parchu anghenion a galluoedd unigol myfyrwyr ac yn cynorthwyo eu datblygiad

1.7 Darperir gwerthusiad cywir o allu a pherfformiad ar gyfer myfyrwyr a darparwyr hyfforddiant a bydd y feithrinfa yn cynorthwyo myfyrwyr sy'n profi anawsterau gyda chynlluniau gweithredu os oes angen hynny

1.8 Er mwyn cynnal partneriaethau â rhieni, rhoddir gwybod i rieni pan fo myfyrwyr yn bresennol yn y feithrinfa

1.9 Rhaid i fyfyrwyr ar leoliad gadw at yr un codau ymddygiad â staff parhaol, ac mae hynny hefyd yn berthnasol i faterion cadw amser a chodau gwisg. Rhaid cynnal cyfrinachedd bob amser. Bydd myfyrwyr yn cael eu cysylltu ag aelod uwch o staff a fydd yn goruchwylio eu gwaith ac yn esbonio'r gofynion iechyd, diogelwch a thân iddynt. Anogir yr holl fyfyrwyr i gyfrannu'n llawn at amserlen y feithrinfa a threulio ychydig o amser ym mhob ardal. Ni ddylid gadael myfyrwyr ar eu pennau eu hunain gyda phlant a dim ond pan fyddant yn cael eu goruchwylio y dylid caniatáu iddynt newid clytiau.